**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 20 CHWEFROR 2017 YN NHŶ HASTINGS (13:30 – 15:30)**

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn Bresennol:** Mark Jones

**Cynrychiolydd Deloitte yn Bresennol:** Ian Howse

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Bresennol:** Lisa James

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), Matthew Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid)

Cyflwynwyd Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cadeirydd.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ymddiheuriadau ar ran Rachel Williams (CFfDLC).

**2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2016.**

3.1 Dywedodd David Powell fod ei ddatganiad o fuddiant yn yr arolwg o ffiniau tua'r môr wedi'i gofnodi'n anghywir a dylid ei newid i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn ymwneud â chysylltiad ei fab â'r prosiect. **Cytunwyd** y byddai'r cofnod o'r datganiad yn cael ei newid i ddangos y sefyllfa gywir.

3.2 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2016 yn amodol ar y diwygiad a nodwyd yn 3.1.

**4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod y mwyafrif o'r eitemau i weithredu arnynt a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn neu yn rhai i ddelio â nhw nes ymlaen ar yr agenda.

4.2 O ran yswiriant teithio, adroddwyd bod ymholiadau wedi'u gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyfeirio at gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a oedd yn datgan mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai cyrff cyhoeddus drefnu yswiriant. Roedd Estyn wedi cadarnhau nad oedd yn darparu yswiriant teithio ar gyfer unrhyw un o'i arolygwyr na'i staff. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd yn ymarferol felly i drefnu yswiriant teithio er mwyn lliniaru'r risgiau i staff yn teithio ar fusnes. Gan ystyried hyn, cytunodd y Pwyllgor i argymell fod CFfDLC yn goddef y risg.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2017

4.3 O ran cynnwys yr adran Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, adroddodd Mark Jones ei fod ar ôl hynny wedi sylweddoli fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n flaenorol y byddai ond yn ofynnol i gyrff cyhoeddus Cymru gynnwys Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru ac felly nid oedd angen unrhyw weithredu pellach. Dywedodd ei fod wedi darparu taenlen i CFfDLC yn ddiweddar yn rhoi canlyniadau adolygiad anffurfiol gan Swyddfa Archwilio Cymru o gynnwys eu hadroddiad blynyddol. Cytunwyd y byddai'r daenlen yn cael ei chylchredeg i aelodau, ynghyd â'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft ar gyfer 2016-17.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 16 Mehefin 2017

4.4 Adroddodd Ian Howse ei fod wedi gwneud trefniadau ar gyfer yr arolwg allanol o drefniadau archwilio mewnol CFfDLC ac y byddent yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

5.1 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith a chadarnhaodd fod pob un o'r eitemau a bennwyd i'w hystyried gan y Pwyllgor ym mis Chwefror wedi'u cynnwys ar yr agenda.

## 6. Archwilio Allanol: Cynllun Archwilio 2017

6.1 Esboniodd Mark Jones fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2017 yn amlinellu'r gwaith arfaethedig ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2016-17. Roedd yn cynnwys rhwymedigaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r dull archwilio, tasgau allweddol, allbynnau a lefel perthnasedd ar gyfer adrodd am gamddatganiadau, manylion personél newydd y tîm archwilio a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyflawni'r gwaith archwilio. Nodwyd yr amcangyfrifwyd fod y ffi ar gyfer archwiliad 2017 £303 yn uwch na ffi archwilio'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, byddai hyn yn destun addasu ar gyfer unrhyw wahaniaeth rhwng y ffi amcangyfrifedig a'r gwariant gwirioneddol ar yr archwiliad.

6.2 Amlinellwyd cyfrifoldebau priodol yr Archwilydd Cyffredinol a CFfDLC yn Atodiad 1, tra bod Atodiad 2 yn nodi'r prif risgiau archwilio a allai arwain at gamddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon ac a oedd yn mynnu ystyriaeth arbennig yn ystod yr archwiliad. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Risg rheolwyr yn trechu rheolaethau. Ymateb yr archwilwyr fydd profi cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu a gwirio trafodion arwyddocaol;
- Y risg nad yw datgeliadau ar gyfer tâl uwch swyddogion o bosibl yn gywir neu nad ydynt efallai yn cydymffurfio â'r gofynion datgelu perthnasol. Ymateb yr archwilwyr fydd profi'r holl ddatgeliadau perthnasol ac ystyried unrhyw newidiadau i rolau, cyfrifoldebau a lefelau tâl ac adolygu prosesau cymeradwyo penodiadau;
- Risg camddatganiad sylweddol yn y datgeliadau sydd eu hangen ar gyfer y nodiadau i'r cyfrifon. Ymateb yr archwilwyr fydd adolygu a phrofi'r nodiadau datgelu o fewn y cyfrifon er mwyn cael sicrwydd eu bod yn hanfodol gywir.

6.3 Mae Atodiad 3 yn amlinellu newidiadau i IFRS yn y dyfodol sy'n berthnasol i'r llywodraeth ganolog. Y newid a fyddai'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar CFfDLC fyddai'r newid i'r driniaeth gyfrifyddu o brydlesi gweithredu a oedd i'w weithredu ar gyfer 2019-20.

6.4 Adroddodd Mark Jones y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal seminar Cyfnewid Arfer Da o'r enw 'Cynnwys y Dinesydd' / 'Involving the Citizen' ym mis Medi 2017 a fyddai'n berthnasol i waith CFfDLC. **Cytunwyd** y byddai CFfDLC yn trefnu i uwch aelod staff fynychu'r digwyddiad.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 26 Gorffennaf 2017

## 7. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016-17

7.1 Adroddodd Ian Howse fod y gwaith archwilio a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2016 wedi ymdrin â refeniw a symiau derbyniadwy. Rhoddwyd manylion canfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiad a roddodd raddfa sicrwydd Sylweddol, ac ni chodwyd unrhyw argymhellion.

7.2 Roedd yr archwiliad hefyd wedi cynnwys dilyniant ar argymhellion y flwyddyn flaenorol, ac roedd 8 o'r rhain wedi'u hail-godi, er y nododd y Pwyllgor fod y mwyafrif o'r argymhellion a ail-godwyd yn rhai nad oedd modd eu gweithredu hyd nes bod CFfDLC wedi ymgymryd â chryn dipyn yn fwy o waith arolwg. Nodwyd y delir yn fanylach â'r holl argymhellion archwilio nad oeddent wedi'u trafod yn eitem 10 ar yr

7.3 Cyfeiriodd Mr Howse y Pwyllgor at yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17 a oedd yn cynnwys crynodeb o'r gwaith archwilio a'i ganfyddiadau, ac a roddodd graddfa sicrwydd risg 'Cymedrol' i CFfDLC ar sail y gwaith archwilio mewnol yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn cynnwys hunanasesiad Deloitte o'u perfformiad wrth gyflawni'r gwaith archwilio yn ystod y flwyddyn.

## 8. Holiadur Blynyddol yr Asesiad Archwilio Mewnol 2016-17

8.1 Ystyriwyd y byddai'r holiadur yn cael ei wella drwy ychwanegu cwestiwn ynghylch barn aelodau ar y rhyngweithio rhwng yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol.

**Cytunwyd** y byddai cwestiwn ychwanegol ynglŷn â hyn yn cael ei ddrafftio a'i ychwanegu at holiadur yr aelodau ar gyfer y flwyddyn nesaf.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 26 Gorffennaf 2017

8.2 Cynigiwyd y byddai'r aelodau yn cyfarfod ar ôl y cyfarfod i lenwi'r holiadur. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cofnodi ymatebion yr aelodau yn dilyn y cyfarfod, ac yn adrodd y canlyniadau i'r cyfarfod nesaf.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 26 Gorffennaf 2017

## 9. Adolygiad o Ymatebion Holiadur Hunansicrhau y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i'w holiadur hunanasesu blynyddol a ddynododd fod yr holl arfer da wedi'i arddangos. **Penderfynwyd** y byddai'r Pwyllgor yn parhau'r ymarferiad hunanasesu bob blwyddyn, ac yn ymdrechu i gynnal y safon uchel bresennol o gydymffurfio ag arfer da.

## 10. Argymhellion Archwilio – Adroddiad Cynnydd.

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar argymhellion yr archwilwyr mewnol a oedd heb eu cyflawni eto.

10.2 Roedd yr argymhelliad yn 2013-14 ynghylch sefydlu gweithdrefnau gwaredu data wedi'i adrodd fel argymhelliad wedi'i weithredu yn flaenorol. Fodd bynnag, roedd Deloitte wedi ail-godi'r argymhelliad hwn gan nad oedd wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd CFfDLC eto. Nodwyd bod mewnrwyd CFfDLC wedi'i diweddaru ers hynny i gynnwys y gweithdrefnau gwaredu data newydd.

10.3 Nid oedd yr argymhelliad yn 2014-15 fod CFfDLC yn gwirio data pensiwn aelodau staff wedi'i weithredu eto oherwydd oedi o ran cael gwybodaeth bellach a oedd yn ofynnol i gwblhau'r ymarferiad. Cynigiwyd a chytunwyd ar ddyddiad gweithredu newydd, sef 31 Mawrth 2017, ar gyfer yr argymhelliad hwn.

10.4 Roedd yr argymhelliad yn 2014-15 ynglŷn â chydgrynhoi'r holl gyfarwyddiadau desg caffael mewn un ddogfen llawlyfr caffael wedi'i adrodd fel argymhelliad wedi'i weithredu yn flaenorol. Fodd bynnag, roedd Deloitte wedi ail-godi'r argymhelliad hwn gan nad oedd wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd CFfDLC eto. Nodwyd bod mewnrwyd CFfDLC wedi'i diweddaru ers hynny i gynnwys y llawlyfr caffael.

10.5 Neilltuwyd y terfyn amser 31 Mawrth 2017 i'r argymhelliad a oedd heb ei gyflawni ar gyfer 2015-16 y dylai CFfDLC ddiweddaru ei adolygiad rheoli perfformiad staff i'w wneud yn glir sut yr oedd amcanion aelodau staff unigol yn cysylltu ag amcanion corfforaethol CFfDLC, ac roedd disgwyl y byddai'r dyddiad hwn yn cael ei fodloni. Yn ychwanegol at hyn, roedd yr argymhelliad yn 2015-16 fod CFfDLC yn diweddaru ei Gynllun Gweithredol i fod yn fwy cyson â'r amcanion corfforaethol, yr adroddwyd yn flaenorol fel argymhelliad wedi'i weithredu, wedi'i ail-godi gan Deloitte gan nad oeddent o'r farn fod y camau a gymerwyd gan CFfDLC yn ddigonol. Cytunwyd ar ddyddiad gweithredu newydd, sef 31 Mai

2017, ar gyfer yr argymhelliad er mwyn caniatáu amser i'r newidiadau a argymhellwyd gael eu hymgorffori yng Nghynllun Gweithredol 2017-18.

10.6 O'r chwe argymhelliad newydd yn deillio o archwiliad 2016-17, roedd dau bellach wedi'u gweithredu, tra bod dyddiadau gweithredu ar gyfer yr argymhellion a oedd yn weddill wedi'u cytuno, sef 30 Mehefin 2017, ac eithrio'r argymhelliad fod mynediad i ffolderi TG a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif yn cael ei gyfyngu i aelodau staff sydd ei hangen yn unig, a neilltuwyd y dyddiad gweithredu 31 Rhagfyr 2017 i'r argymhelliad hwnnw er mwyn caniatáu amser i ystyriaethau ynghylch gofynion TG CFfDLC yn y dyfodol.

10.7 Roedd aelodau o'r farn fod gweithredu'r argymhelliad ynghylch sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant diogelwch gwybodaeth yn bwysig iawn, ac y dylid ei weithredu'n gynharach na'r dyddiad gweithredu a argymhellwyd, sef 30 Mehefin 2017. **Cytunwyd** y byddai'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu cyn gynted ag y bo modd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn**: ar unwaith

10.8 Ystyriwyd y dylai'r holl Gomisiynwyr gael hyfforddiant ar ddiogelwch gwybodaeth hefyd, ond nodwyd bod yr unig hyfforddiant a oedd ar gael ar hyn o bryd ond ar gael ar-lein ar gyfer gweision sifil. **Cytunwyd** y byddai briff ar gyfer yr holl Gomisiynwyr yn cynnwys prif negeseuon diogelwch gwybodaeth a diogelu data yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 26 Gorffennaf 2017

## 11. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2016-17

11.1 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a **chytunodd** ar gynnwys ychwanegol i'r tabl yn Atodiad 2 yn amlinellu ffynonellau sicrwydd CFfDLC.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 1 Ebrill 2017

11.2 Ystyriwyd y dylai tabl ffynonellau sicrwydd Atodiad 2 gael ei gysylltu hefyd, a'i groesgyfeirio â Fframwaith Sicrwydd Bwrdd CFfDLC os oedd modd. **Cytunwyd** y dylai'r tabl ffynonellau sicrwydd gael ei groesgyfeirio gyda Fframwaith Sicrwydd Bwrdd CFfDLC.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 1 Ebrill 2017

11.3 **Cytunwyd** yr adroddiad yn amodol ar y newidiadau arfaethedig i atodiad 2 a rhai mân ddiwygiadau eraill.

## 12. Datganiad Llywodraethu Drafft 2016-17

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu drafft a chynigiwyd nifer o fân newidiadau. **Cytunwyd** y gellid gwneud gwelliannau pellach i'r ddogfen drwy ddileu unrhyw gynnwys a oedd yn cael ei ddyblygu yn adran Adroddiad Perfformiad yr adroddiad blynyddol, a hefyd drwy aildrefnu'r cynnwys er mwyn cael yr adrannau pwysicaf ar y dechrau.

**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Ebrill 2017

12.2 **Cytunwyd** y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cynorthwyo CFfDLC drwy adolygu cynnwys y Datganiad Llywodraethu fel rhan o'u harchwiliad 2017t.
**Gweithredu**: Swyddfa Archwilio Cymru **Erbyn**: 30 Mehefin 2017

**13. Cofrestr Risg Pensiynau CFfDLC**

13.1 Nododd y Pwyllgor y fersiwn gyfredol o gofrestr risg pensiynau CFfDLC ynghyd â chofnod o'r newidiadau a wnaed ers eu hadolygiad diwethaf.

**14. Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

14.1 Nododd y Pwyllgor y ddogfen a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a amlinellodd gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a CFfDLC yn gyffredinol ac mewn perthynas â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol 2016-17.

**15. Adroddiad Rheoli Risg**

15.1 Nododd y Pwyllgor y newidiadau i gofrestri Risg CFfDLC. Cytunwyd i gynnig y newidiadau canlynol i CFfDLC:

- Dylai Risg Gorfforaethol CR2 adlewyrchu'r anawsterau a gaiff CFfDLC wrth recriwtio aelodau staff newydd;
- Dylai Risg Gorfforaethol CR12 adlewyrchu'r amharu posibl ar y rhaglen arolygon etholiadol drwy ymgymryd â math arall o arolwg ar yr un pryd;
- Roedd y sgôr risg Tebygolrwydd cynhenid o 5 ar gyfer Risg Gorfforaethol CR13 yn rhy uchel a dylid ei gostwng i 4; ac
- Roedd Risg Gorfforaethol CR4 ynglŷn â cholli hyder rhanddeiliaid a niwed i enw da CFfDLC yn cael ei dyblygu gan Risg Weithredol OP17. Dylai CFfDLC ystyried cyfuno'r risgiau hyn fel rhan o'r adolygiad o gofrestri risg ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

15.2 O ran camau gweithredu arfaethedig y Pwyllgor mewn perthynas ag yswiriant teithio yn eitem 4 ar yr agenda, **cytunwyd** cynnig i CFfDLC ei fod yn gofyn i'w aelodau yn flynyddol i gadarnhau bod ganddynt gymal ar gyfer teithio busnes yn eu hyswiriant car.

**16. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.**

16.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 20 Rhagfyr 2016. Nodwyd bod CFfDLC wedi ystyried eu gwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2017-18 hefyd, a'u bod wedi hysbysu Llywodraeth Cymru am eu gofynion cyllideb adroddedig ar gyfer 2017-18.

**17. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

17.1 Nododd y Pwyllgor y datganiadau diweddar am letygarwch a dderbyniwyd gan y Prif Weithredwr ac aelodau yn y cyfarfod Rhwng Comisiynau a gynhaliwyd yn Belfast yn ystod mis Rhagfyr 2016.

**18. Cwynion**

18.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gŵynion wedi'u derbyn ers yr adroddiad diwethaf.

18.2 Rhoddwyd ystyriaeth i'r ohebiaeth ddiweddar yr oedd CFfDLC wedi'i derbyn gan Gyngor Sir Gwynedd, a ph'un a ddylid ei hystyried fel cwyn neu beidio. **Cytunwyd** y byddai'r Pwyllgor yn argymell fod CFfDLC yn trin yr ohebiaeth fel cwyn ac y dylid adlewyrchu hyn yn yr adroddiad ar gŵynion a gyflwynir i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr **Erbyn**: 26 Gorffennaf 2017

**19. Adroddiad Chwythu'r Chwiban a Thwyll**

19.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

**20. Adroddiad Diogelwch Data TG**

20.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

**21. Unrhyw Fusnes Arall**

21.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.

**22. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

22.1 Nodwyd mai'r dyddiad ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fyddai 26 Gorffennaf 2017.